

HARRIS, THOMAS (1705 - 1782)

Enw: Thomas Harris
Dyddiad geni: 1705
Dyddiad marw: 1782
Plentyn: Elizabeth Robinson
Plentyn: Thomas Robinson
Rhiant: Susanna Harris (née Powell)
Rhiant: Howell Harris
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Perchnogaeth Tir; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ail fab Howel a Susannah Harris, Trefeca, a brawd i **Howel** a **Joseph Harris**. Bedyddiwyd yn Nhalgarth 6 Ionawr 1705. Aeth i Bath yn 1728, ac yn 1729 i Lundain, ar y cychwyn yn deiliwr gyda'i ewythr Solomon Powell ac wedyn ar ei gyfrifoldeb ef ei hunan.

Bu gryn 40 mlynedd yn Llundain; ar waethaf anffodion ar y dechrau, gwnaeth arian dirfawr gan werthu dillad i'r fyddin. Yn 1768 yr oedd yn siryf Brycheiniog, a phrynodd stadau Trefeca a Thregunter; adnewyddodd blasty Tregunter yn 1770. Afreolaidd fu ei fuchedd yn Llundain, roedd yn briod, ond ni wyddys pwy oedd ei wraig, na pha bryd y bu hi farw, ac yr oedd ganddo o leiaf dri phlentyn. O'r rhain, ymunodd merch, Elizabeth Robinson, â phobl Trefeca pan oedd hi'n byw yn Nhregunter, ac y mae mab, Thomas Robinson, dyn meddw a thaeogaidd, yn hysbys fel priod yr actores enwog Mary Darby ('Perdita' - y mae ysgrif arni yn y *D.N.B.*); yn nhy Trefeca y ganed eu merch, a fedyddiwyd yn Nhalgarth 25 Hydref 1774. Rhydd Mrs. Robinson ('Perdita') inni ddisgrifiad didderbyn-wyneb o deithi ei thad-yng-nghyfraith yn ei hunangofiant *Memoirs of the late Mrs. Robinson written by herself* (1803). Ni wnaeth ef fawr ddim drosti, gan adael ei eiddo i'w nith, merch ei frawd **Joseph**.

Bu Thomas Harris farw 23 Medi 1782. Y mae llythyrau a basiodd rhyngddo a'i frawd **Howel** yng nghasgliad Trefeca yn Ll.G.C.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932), 48-51, hefyd yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 81-5, a'r cyfeiriadau pellach yno

R. T. Jenkins, *Yng nghysgod Trefeca: Ysgrifau ar hanes crefydd a chymdeithas yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif* (Caernarfon 1968)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734457

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government